Cyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymdrin â gweithio mewn ffordd gynaliadwy mewn cegin fasnachol.

Bydd angen ichi weithio’n effeithiol i sicrhau y defnyddir cyfleustodau ac adnoddau eraill yn effeithlon, ac i leihau gwastraff i’r eithaf. Hefyd, mae angen ichi asesu’ch perfformiad eich hun a chanfod ac achub ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd.

Argymhellir y safon hon ar gyfer cogyddion llinell, cynhyrchu a commis a phen-cogyddion eraill sy’n gweithio mewn ceginau masnachol.

Pan fyddwch wedi cwblhau’r safon hon byddwch wedi dangos eich dealltwriaeth o’r canlynol, a’ch gallu i’w gyflawni:

•Cyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. Gweithio'n effeithiol yn ôl trefniadau gweithredu safonol
2. Asesu'ch perfformiad eich hun er mwyn canfod gwelliannau posibl o ran effeithlonrwydd
3. Rhoi gwybod yn gywir am unrhyw gyfleoedd i wella effeithlonrwydd cyfleustodau ac adnoddau eraill
4. Rhoi gwybod yn brydlon ac yn gywir am amrywiadau yn y defnydd o gyfleustodau ac adnoddau ac unrhyw gamau rydych wedi'u cymryd i ymateb i hynny
5. Cymryd camau i wella effeithlonrwydd y defnydd o gyfleustodau ac adnoddau eraill
6. Gweithio'n effeithlon yn unol â manylebau bwydlenni er mwyn osgoi gwastraff a'i leihau i'r eithaf

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. Y derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â chynaliadwyedd mewn ceginau masnachol
2. Pam mae ceginau masnachol yn defnyddio bwyd o ffynonellau cynaliadwy
3. Pa gyfleustodau ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ceginau masnachol a sut y cânt eu defnyddio
4. Pam mae angen i geginau masnachol leihau'r defnydd o gyfleustodau
5. Sut y gallai ceginau masnachol wella'r defnydd o gyfleustodau
6. Pa fentrau gan y llywodraeth all helpu i wella'r defnydd o gyfleustodau

Cwmpas/Ystod

1. Cyfleustodau ac adnoddau eraill
1.1 nwy
1.2 trydan
1.3 dŵr
1.4 bwyd
1.5 nwyddau traul
1.6 manion bethau e.e. ffoil, haenen lynu

Cyfrannu at arferion cynaliadwy mewn ceginau

Datblygwyd gan	People 1st
Dyddiad cymeradwyo	01 Chwef 2016
Dyddiad Adolygu Dangosol	01 Maw 2021
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	People 1st
RCU gwreiddiol	PPL2PC34
Galwedigaethau perthnasol	Lletygarwch
Cyfres/Set	Lletygarwch - Cyffredinol
Geiriau Allweddol	Cynaliadwyedd, cynaliadwy, bwydlenni, coginio, pen-cogydd